# Collage Newid Tirlun


## Nodiadau Canllaw i Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Deall fod tirlun yn newid dros amser
- Darganfod rhai o’r rhesymau pam fod tirlun yn newid dros amser
- Datblygu sgiliau creadigol
- Datblygu sgiliau meddwl beirniadol, ymchwilio a chyflwyno

### Adnoddau

- Llinell Amser
- PowerPoint Mapio
- Gweithgaredd Ysgrifennu am Deithio o’r Bwndel Teithio a Thwristiaeth
- Gweithgaredd Artistiaid Dyffryn Dyfrdwy o’r Bwndel Teithio a Thwristiaeth
- Ffilm: Boneddigesau Llangollen – Adlewyrchu ar Ddyfrbont Pontcysyllte
- Art and Design KS1 / KS2: Creating a collage landscape - BBC Teach
- pontcysyllte-aqueduct.co.uk
- Amgueddfa Llangollen Museum
- Art UK | Home



### Cyfarwyddiadau ar gyfer y Gweithgaredd

Dysgwyr i ddefnyddio paentiadau a lluniau o Ddyffryn Dyfrdwy a Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte i greu tirlun collage yn dewis newid dros amser. Mae’n well gwneud hyn ar ôl gwneud y gweithgareddau llinell amser er mwyn cael ychydig o gyd-destun.

### Syniadau Gweithgareddau Cychwynnol:



**Defnyddiwch** y gweithgareddau mapio a llinell amser i helpu gyda’r gwaith ymchwil

**Archwiliwch** yr adnoddau yn y gweithgaredd Ysgrifennu am Deithio yn y Bwndel Teithio a Thwristiaeth

**Gwyliwch** y fideo ‘Creating a collage landscape’ gan y BBC

### Syniadau Gweithgareddau Eraill:



**Trafodaeth ddosbarth:** Ai effaith bositif neu negyddol gafodd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte ar y tirlun? Beth ydych chi’n feddwl oedd barn pobl am y peth ar y pryd? Beth ydych chi’n feddwl yw barn pobl am y peth erbyn hyn?

### Briff ar Gyfer dDsgwyr:



- Ymchwiliwch y ffynonellau a’r deunyddiau a ddarparwyd, yna gwnewch ymchwil pellach ar y cyfnodau amser eich hun.
- Gan ddefnyddio’r hyn rydych wedi ei ddarganfod, crëwch collage yn dangos sut mae ardal Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte wedi newid dros amser.
- Argraffwch a thorrwch luniau o’r gwahanol gyfnodau.
- Defnyddiwch weadau a deunyddiau gwahanol i greu eich collage.
- Ychwanegwch ddyfyniadau gan ysgrifenwyr am deithio o’r bwndel gweithgareddau a’r data a gasglwyd o’r gweithgareddau mapio a phoblogaeth ac ychwanegwch wybodaeth i’ch collage newid dros amser.
- Defnyddiwch y cwestiynau canlynol i helpu i siapio eich collage. Sut oedd y tirlun yn edrych? Beth sydd wedi newid drwy’r cyfnodau? Beth sydd wedi aros yr un fath?